Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

# Ymgynghoriad ar uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru

Mae’r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 28 Mehefin 2016

Daw’r ymgynghoriad hwn i ben ar 5 Awst 2016

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

# Ymgynghoriad ar uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru

**Cynhyrchwyd yr ymgynghoriad hwn gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, rhan o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.**

## Ynglŷn â’r ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **At:** | Ddefnyddwyr llys, ynadon, staff ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb yn y ddarpariaeth o ran trefniadau cyfiawnder lleol yng Nghymru drwyddi draw. |
| **Hyd:** | Rhwng 28 Mehefin 2016 a 5 Awst 2016 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) i:** | Ymgynghoriad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru<br>Uned Gefnogi Cymru<br>2il Lawr, Llys Ynadon Caerdydd a’r Fro<br>Plas Fitzalan<br>Caerdydd<br>CF24 0RZ<br><br>**Ffôn:** 029 2046 7759<br>**E-bost:** HMCTSWalesConsultation@hmcts.gsi.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 5 Awst 2016 i:<br>Ymgynghoriad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru<br>Uned Gefnogi Cymru<br>2il Lawr, Llys Ynadon Caerdydd a’r Fro<br>Plas Fitzalan<br>Caerdydd<br>CF24 0RZ<br><br>**Ffôn:** 029 2046 7759<br>**E-bost:** HMCTSWalesConsultation@hmcts.gsi.gov.uk |
| **Y papur ymateb:** | Bydd ymateb i’r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law. |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Crynodeb gweithredol | 4 |
| Rhagymadrodd | 6 |
| Y cynigion | 12 |
| Holiadur | 15 |
| Amdanoch chi | 16 |
| Manylion cysylltu/Sut i ymateb | 17 |
| Asesiad o Effaith | 18 |

# Rhagair

Y Grwpiau Busnes Barnwrol (JGB) a’r Clercod Ynadon sy’n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle i gynnal busnes barnwrol yn effeithiol, a bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda’r rhai yr effeithir arnynt o ganlyniad i unrhyw newidiadau arfaethedig i’r ffordd y gweithredir y llysoedd, yn arbennig i'r ffordd y rhestrir achosion.

Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM gyfrifoldeb dros sicrhau y gweinyddir cyfiawnder yn effeithlon ac effeithiol.

Mae’r papur ymgynghori hwn yn nodi’r cynigion i uno’r 14 Ardal Cyfiawnder Lleol (LJA, a elwir hefyd yn Feinciau) yng Nghymru drwy nifer o opsiynau.  Ar hyn o bryd, mae gwaith y llysoedd ynadon yng Nghymru wedi’i rannu rhwng 14 Ardal Cyfiawnder Lleol (gweler tudalen wyth, sy'n dangos yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol a'r adeiladau llys).

Mae angen cynnal proses ymgynghori statudol ar gyfer newidiadau fel hyn.  Ar yr achlysur hwn, yn ychwanegol i'r ymgyngoreion statudol, ymgynghorir ag ystod eang o ddefnyddwyr llys, gyda’r gobaith y bydd cefnogaeth helaeth i leihau nifer yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol, a dealltwriaeth gyffredin o’r manteision a gyflawnir drwy uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol. Fodd bynnag, croesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu sydd â safbwyntiau ar y pwnc yr ymdrinnir ag ef yn y papur hwn.

## Crynodeb gweithredol

Cyhoeddwyd ymateb i'r ymarfer ymgynghori cenedlaethol ar ddyfodol ystad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar 11 Chwefror 2016.

Roedd yr ymateb yn cynnwys penderfyniad i gau nifer o lysoedd ynadon yng Nghymru:

> Llys Barn Aberhonddu, gyda dyddiad cau disgwyliedig ym mis Ionawr 2017, er y gellir ei ddwyn ymlaen i fis Medi 2016.
>
> Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr, gyda dyddiad cau disgwyliedig ym mis Gorffennaf 2016.
>
> Llysoedd Barn Caerfyrddin (Neuadd y Sir), sydd wedi cau ers 27 Mai 2016.
>
> Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau, gyda dyddiad cau disgwyliedig sef 30 Medi 2016, yn amodol ar ddod o hyd i leoliad addas arall.
>
> Llys Ynadon Caergybi, gyda dyddiad cau disgwyliedig sef 30 Medi 2016, yn amodol ar ddod o hyd i leoliad addas arall.
>
> Llys Ynadon Pontypridd, gyda dyddiad cau disgwyliedig ym mis Gorffennaf 2016.
>
> Llys Ynadon Prestatyn, gyda dyddiad cau disgwyliedig ym mis Gorffennaf 2016, er bydd y safle’n cael ei gadw ar gyfer gwaith Sifil, Teulu a’r Tribiwnlysoedd.

Mae gofyn am adolygiad o’r ardaloedd cyfiawnder lleol lle bo llysoedd yn cau, ac mae’n amserol i ystyried nifer o opsiynau mewn perthynas â threfniadau Ardaloedd Cyfiawnder Lleol ar hyd a lled Cymru ar yr un pryd. Mae cytundeb, pan fo gwaith o lys sy’n cau yn cael ei gyfuno â’r gwaith mewn llys arall, bod ynadon y llysoedd sy’n cau a’r llysoedd sy’n derbyn y gwaith yn cydweithio ac yn darparu cyfiawnder fel petai’r strwythurau Ardaloedd Cyfiawnder Lleol wedi uno’n barod.

Bydd lleihau nifer yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn gwella effeithlonrwydd darparu cyfiawnder drwy wella hyblygrwydd wrth ddelio ag achosion yn y llysoedd ynadon yng Nghymru, a thrwy hynny yn cynyddu cyfleoedd i ynadon ddal gafael ar eu profiad a’u cymwyseddau. Hefyd, mae’n galluogi gwneud y defnydd gorau o adnoddau drwy restru’n fwy effeithiol.

Mae buddion amlwg i'w cael drwy gael trefniadau LJA sy'n cefnogi defnyddio ynadon yn fwy hyblyg ar hyd a lled Cymru, ac sy’n galluogi darparu gwasanaeth gwell i aelodau o'r cyhoedd.

Mae’r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn y bobl neu’r grwpiau yr effeithir arnynt o ganlyniad i’r newid arfaethedig gan gynnwys ynadon, aelodau eraill o'r farnwriaeth, defnyddwyr y llys, rhanddeiliaid ac awdurdodau cyhoeddus o fewn yr ardaloedd cyfagos dan sylw.

## Effaith ar yr iaith Gymraeg

Roedd ymateb Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i'r ymgynghoriad ar gau llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru yn cynnwys Asesiad o Effaith ar yr iaith Gymraeg.  Mae copi o’r asesiad hwnnw ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/499520/welsh-language-impact-assessment.pdf.

Daethpwyd i’r casgliad yn yr Asesiad o Effaith ar yr iaith Gymraeg y byddai lleihau’r nifer o lysoedd yn cryfhau’r gwasanaeth Cymraeg drwy sicrhau bod yr ynadon sy’n siarad Cymraeg ar hyn o bryd wedi’u lleoli mewn llai o leoliadau o fewn ein hystad graidd.  Mae’r un ddadl yn berthnasol i’r cynnig i leihau’r nifer o Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru, gan y byddai cael llai ohonynt yn caniatáu’r ynadon sy’n siarad Cymraeg i eistedd mewn ardal ddaearyddol fwy.

# Rhagymadrodd

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynnig mewn perthynas â threfniadau ar gyfer Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae tri rheswm allweddol dros ystyried uno'r 14 Ardal Cyfiawnder Lleol presennol, sef:

- Gwella effeithlonrwydd darparu cyfiawnder drwy wella hyblygrwydd wrth ddelio ag achosion;
- Gwneud defnydd gwell o'r adnoddau sy'n lleihau; ac
- Mewn rhai achosion, cynyddu'r cyfleoedd i ynadon ddal gafael ar brofiad a'u cymhwysedd.

Mae'n rhaid i'r Grŵp Busnes Barnwrol fynd i'r afael â'r cwestiwn o ran eisteddiadau ynadon yn erbyn gwybodaeth gefndirol sy'n dangos fod nifer yr eisteddiadau llys yn yr awdurdodaeth droseddol yn lleihau. Hefyd, mae'n rhaid i'r Grŵp Busnes Barnwrol ystyried yr adnoddau sydd ar gael i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol, i sicrhau y gellir darparu cyfiawnder mor effeithiol â phosib gyda'r adnoddau sy'n lleihau. Mae penderfyniadau ynglŷn â staffio o fewn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a sefydliadau eraill yn cael eu gwneud ar sail y llwyth gwaith, ac felly mae wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Cefndir

Crëwyd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar 1 Ebrill 2011 ac mae'n un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ). Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru yn gyfrifol am weinyddu'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru mewn modd effeithlon ac effeithiol.

Y Grwpiau Busnes Barnwrol[1] yng Nghymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle i gynnal y busnes barnwrol yn eu hardal, a bod trafodaethau rheolaidd gyda'r Clercod Ynadon mewn perthynas â gweithredu'r llysoedd.

Mae Deddf Llysoedd 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i rannu Cymru a Lloegr yn Ardaloedd Cyfiawnder Lleol. Gallai'r Arglwydd Ganghellor newid yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol drwy orchymyn, gan gynnwys eu huno. Mae adran 8 o'r Ddeddf honno'n gofyn iddo ymgynghori ag unrhyw Ynadon sydd wedi eu neilltuo i'r ardal (ardaloedd) ac unrhyw awdurdod lleol sy'n cynnwys yr Ardal Cyfiawnder Lleol, cyn y bydd y newidiadau yn cael eu gwneud.

Mae gan Ynadon awdurdodaeth genedlaethol felly gallant ddelio â'r mwyafrif o achosion ni waeth pa ardal yr honnir i drosedd gael ei chyflawni. Fodd bynnag, yn unol â

[1] Mae dau Grŵp Busnes Barnwrol yng Nghymru, sef: Gwent a De Cymru; a Dyfed Powys a Gogledd Cymru

chyfarwyddiadau newydd a gyhoeddwyd o dan adran 30 o Ddeddf Llysoedd 2003, mae cyfyngiadau o ran ym mhle y gellir rhestru achosion. Mae ynadon yn cael eu neilltuo i Ardal Cyfiawnder Lleol neu i fainc am resymau trefniadol ac fel arfer maent yn eistedd yn yr ardal y maent wedi cael ei neilltuo iddi, er ceir rhai eithriadau yn Adran 10, Deddf Llysoedd 2003.

Ar hyn o bryd, mae 14 Ardal Cyfiawnder Lleol yng Nghymru, ac mae o leiaf un adeilad llys ym mhob un. Mae ynadon y Llys Teulu o Ardaloedd Cyfiawnder Lleol gwahanol eisoes yn eistedd gyda'i gilydd yng Nghymru o dan yr Un Llys Teulu.

Yn dilyn ymgynghoriad statudol, yr Arglwydd Ganghellor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol i newid Ardal Cyfiawnder Lleol. Mae’n rhaid i’r penderfyniad gael ei wneud yn y lle cyntaf ar sail yr angen i sicrhau mynediad at gyfiawnder ac i ddelio â busnes y llysoedd ynadon yn effeithiol, gan ystyried anghenion cymunedau lleol ac isadeiledd y system cyfiawnder troseddol ehangach, lleoliad ynadon a’r angen i’w cefnogi, a llwyth gwaith a lleoliad staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (yn unol â Chanllaw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar Newid Ardaloedd Cyfiawnder Lleol 2012).

Mae’r tabl isod yn dangos maint pob Mainc unigol yng Nghymru, ynghyd â’r nifer o’r ynadon fel ag yr oedd ar 6 Mai 2016.

| Mainc/Ardal Cyfiawnder Lleol | Nifer yr ynadon | Nifer o ynadon yn yr Ardal Cyfiawnder Lleol sy’n siarad Cymraeg |
|---|---|---|
| Conwy | 46 | 13 |
| Sir Ddinbych | 42 | 6 |
| Sir Drefaldwyn | 27 | 6 |
| Gwynedd | 45 | 37 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | 116 | 9 |
| Ynys Môn | 19 | 11 |
| Caerdydd a Bro Morgannwg, | 220 | 12 |
| Cymoedd Morgannwg | 97 | 2 |
| Gwent | 228 | 8 |
| Castellnewydd ac Ogwr | 58 | 1 |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | 29 | 1 |
| Sir Gaerfyrddin | 72 | 44 |
| Ceredigion a Sir Benfro | 70 | 23 |
| Gorllewin Morgannwg | 172 | 5 |

Mae'r llysoedd ynadon, yn genedlaethol ac yng Nghymru, wedi gweld gostyngiad mewn gwaith troseddol a gwaith sifil, ynghyd â chynnydd mewn gwaith teulu.

Mae rhannu'r gwaith ar draws y 14eg Ardal Cyfiawnder Lleol yn golygu bod rhaid rhestru'r gwaith yn ôl ffiniau Ardaloedd Cyfiawnder Lleol, yn hytrach nag yn ôl effeithlonrwydd ac anghenion yr achosion yn unigol. Mae cyfyngiadau'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn golygu ei bod yn anodd i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wneud y defnydd gorau o'i adnoddau, ac mae'n rhoi pwysau ar asiantaethau cyfiawnder troseddol megis Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Timau Troseddwyr Ifanc ac ymarferwyr yr amddiffyniad. Un ffactor allweddol sy'n effeithio ar allu'r asiantaethau hyn i reoli o fewn eu hadnoddau yw'r nifer o sesiynau llys y mae gofyn iddynt eu cyflenwi. Hefyd, oherwydd nad oes digon o waith mewn rhai llysoedd, mae'n effeithio ar brofiad ynadon, ac yn peri risg i'w cymhwysedd. Mae'r arferion rhestru presennol yn gofyn y delir â throseddau a gyflawnir o fewn Ardal Cyfiawnder Lleol mewn llys o fewn yr Ardal Cyfiawnder Lleol honno, er y gallai llys arall fod yn agosach ac yn fwy hygyrch i ddioddefwyr, tystion a diffynyddion. Gallai hyn gael effaith negyddol ar ddioddefwyr, tystion, diffynyddion, a'r Gwasanaeth Carchardai, os yw'r diffynyddion yn cael eu cadw dan glo.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi'r cyfle i ystyried pa un a fyddai tynnu rhai, neu'r cyfan o ffiniau'r ardaloedd cyfiawnder lleol yng Nghymru'n darparu gwasanaeth mwy hyblyg sydd wedi'i anelu at y cyhoedd. Mae cael 14 Ardal Cyfiawnder Lleol yn golygu bod nifer y cyfarfodydd sy'n cael eu gweinyddu gan reolwyr a staff cefnogol yn annerbyniol, gan ystyried bod yr adnoddau sydd ar gael i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn lleihau.

**Darpariaethau Statudol Perthnasol**

Mae Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn cael eu rheoli gan Ran 2, adran 8 Deddf Llysoedd 2003:

1. Mae Cymru a Lloegr i'w rhannu'n ardaloedd a elwir yn Ardaloedd Cyfiawnder Lleol.

2. Bydd yr ardaloedd yn rhai a nodir gan orchymyn a wnaethpwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

3. Mae pob ardal cyfiawnder lleol a sefydlwyd drwy orchymyn dan adran (2) i'w hadnabod dan yr enw hwnnw a nodir yn y gorchymyn (ond yn amodol ar adran (4)).

4. Gall yr Arglwydd Ganghellor wneud gorchmynion i newid ardaloedd cyfiawnder lleol.

5. Mae "Newid", mewn perthynas ag ardal cyfiawnder lleol, yn cynnwys (yn ogystal â newid ei ffiniau)-

    a. Ei chyfuno ag un neu ragor o ardaloedd cyfiawnder lleol,

    b. Ei rhannu rhwng dwy neu ragor o ardaloedd cyfiawnder lleol eraill, a

c. Newid ei henw.

6. Cyn y gwneir unrhyw orchymyn dan adran (2) neu (4), mae'n rhaid i'r Arglwydd Ganghellor ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus.

7. Cyn y gwneir gorchymyn dan isadran (4) mewn perthynas ag ardal cyfiawnder lleol, mae'n rhaid i'r Arglwydd Ganghellor ymgynghori ag -

   a. Ynadon heddwch sydd wedi'u pennu i'r ardal cyfiawnder lleol.

   b. Onid yr enw yw'r unig beth sy'n newid, rhaid ymgynghori ag unrhyw awdurdodau lleol y mae eu hardaloedd yn cynnwys yr ardal cyfiawnder lleol neu ran o'r ardal cyfiawnder lleol.

Mae Adran 21 o'r Ddeddf Llysoedd yn berthnasol hefyd: mae'n allweddol bod ymgynghoriad llawn â phob Ynad yn digwydd er mwyn uno'n llwyddiannus, yn unol â'r adran honno:

Mae'n rhaid i'r Arglwydd Ganghellor gymryd yr holl gamau sy'n rhesymol ac ymarferol i:

a. Sicrhau bod ynadon lleyg sy'n gweithredu mewn ardal cyfiawnder lleol yn cael eu hysbysu am unrhyw faterion sy'n effeithio arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau, a

b. Chanfod eu safbwyntiau ar faterion o'r fath.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio â gofynion Adran 8 (6) Deddf Llysoedd 2003 a chyda Canllaw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar Newid Ardaloedd Cyfiawnder Lleol a gyhoeddwyd yn 2012.

Felly, cynigir pe bai'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn uno, y dylai'r paneli gyfuno mewn modd a fyddai'n adlewyrchiad agos o ffiniau'r heddlu.

**Y Trefniadau ar hyn o bryd**

Mae 14eg Ardal Cyfiawnder Lleol ar hyn o bryd, sy'n cael eu gweinyddu o'r swyddfeydd a nodir yn y tabl isod:

| Ardal Cyfiawnder Lleol | Llys | Swyddfa Weinyddol |
|---|---|---|
| Conwy | Llandudno | Llandudno |
| Sir Ddinbych | Prestatyn | Llandudno |
| Sir Drefaldwyn | Y Trallwng | Y Trallwng |
| Gwynedd | Dolgellau a Chaernarfon | Caernarfon |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | Wrecsam a'r Wyddgrug | Wrecsam |

| | | |
|---|---|---|
| Ynys Môn | Caergybi | Caernarfon |
| Caerdydd a Bro Morgannwg | Caerdydd | Caerdydd |
| Cymoedd Morgannwg | Merthyr Tudful a Phontypridd | Merthyr Tudful a Phontypridd |
| Gwent | Cwmbrân, Casnewydd a Chaerffili | Casnewydd |
| Castellnewydd ac Ogwr | Pen-y-bont ar Ogwr | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | Brycheiniog a Llandrindod | Merthyr Tudful |
| Sir Gaerfyrddin | Caerfyrddin a Llanelli | Llanelli |
| Ceredigion a Sir Benfro | Aberystwyth a Hwlffordd | Aberystwyth a Hwlffordd |
| Gorllewin Morgannwg | Abertawe | Abertawe |

Fel arfer, pennir lleoliad ar gyfer gwrandawiad llys yn ôl yr Ardal Cyfiawnder Lleol ble cyflawnwyd y drosedd, gyda rhai eithriadau lle mae'r gwaith efallai wedi ei ganoli ac a fydd yn parhau i gael ei adolygu yn ôl y Weithdrefn Un Ynad.

**Yr angen am newid**

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r farnwriaeth i sicrhau bod yr ystad yn cael ei defnyddio mewn ffordd sy’n delio gydag achosion yn effeithlon i ddarparu’r gwasanaeth gorau posibl i ddioddefwyr, tystion a diffynyddion.

Yn ddiweddar, mae llwyth gwaith y llysoedd ynadon wedi lleihau; a disgwylir i hyn barhau, ond nid yw’r adnoddau sydd ar gael wedi lleihau yn yr un modd.

Byddai lleihau’r nifer o Ardaloedd Cyfiawnder Troseddol yn rhoi cyfleoedd i'r Grwpiau Busnes Barnwrol i ddatblygu strategaeth restru a fyddai'n ateb gofynion y llwyth gwaith sy’n lleihau yn well. Mae’n debygol y bydd y defnydd a wneir o ynadon a chynghorwyr cyfreithiol mewn rhai sefyllfaoedd yn dod yn fwy effeithlon, pe gwneir penderfyniadau i weithredu heb gyfyngiadau’r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol, gan ei bod yn debygol i ddod yn haws i sicrhau bod gan bob llys restr lawn o achosion.

Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yr adnoddau i weithredu'r llysoedd sy’n angenrheidiol i ddelio gyda’r llwyth gwaith presennol. Mae hyn yn golygu fod angen dyrannu diwrnod llawn o waith ym mhob llys i’r cynghorwyr cyfreithiol, sy’n darparu cyfleoedd gwell i ynadon gael rhagor o brofiad mewn ystod ehangach o waith y llys ynadon.

Pe byddai llai o Ardaloedd Cyfiawnder Lleol, byddai'r trefniadau ar gyfer ynadon yn dod yn fwy effeithlon. Gellir gwneud trefniadau, megis gofyn i ynad eistedd yn y llys sydd agosaf at eu cartref. Byddai hyn nid yn unig yn fwy cyfleus iddyn nhw, ond byddai'n fwy economaidd gan y byddai'r costau teithio yn llai.

Gyda llai o Ardaloedd Cyfiawnder Lleol, byddai'n dod yn fwy cyffredin i ddioddefwyr, tystion a diffynyddion gael cynnig gwrandawiad mewn llys sy'n agosach at eu cartref, yn hytrach na mewn llys o fewn yr Ardal Cyfiawnder Lleol presennol, allai fod yn bellach ac yn golygu gorfod teithio i rywle nad yw'n gyfleus.

Byddai uno'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn golygu y bydd llysoedd ynadon yn gallu rheoli unrhyw gyfnodau prysur iawn a chyfnodau distawach o ran y llwyth gwaith yn well. Byddai'n cynyddu'r gallu i rannu adnoddau ar draws yr ardaloedd, gan ddarparu gwell sicrwydd bod y perfformiad rhagorol a ddarperir yng Nghymru ar hyn o bryd yn cael ei gynnal.

Byddai llai o Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn galluogi cyflwyno trefniadau rhestru mwy effeithiol, a fyddai'n galluogi cyrff cyhoeddus i reoli'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn well. Byddai Ardal Cyfiawnder Lleol fwy yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau erlynwyr ac asiantaethau cefnogol eraill megis y gwasanaeth Prawf.

Gellir cyflawni effeithlonrwydd i gyfreithwyr yr amddiffyniad mewn rhai achosion, o bosibl drwy restru rhagor o'u hachosion gyda'i gilydd, a allai leihau'r nifer o adfocadau sydd angen eu dosbarthu.

Bydd y Clercod Ynadon a'u timau yn gallu cynnig cefnogaeth lawn i nifer lai o Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn haws. Mewn ardaloedd lle mae ymarfer tebyg wedi digwydd, mae'r nifer o gyfarfodydd a'r gwaith gweinyddol perthnasol wedi lleihau yn fawr. Mae'r trefniadau cyfredol yn gofyn bod y Clercod Ynadon a'u timau yn cefnogi cyfarfodydd o'r fainc, Pwyllgorau Hyfforddi a Datblygu, cyfarfodydd Grwpiau Arweinyddiaeth Farnwrol a phwyllgorau eraill i bob un o'r 14 Mainc (neu ar gyfer grwpiau o'r 14 Mainc gyfredol). Bydd lleihad yn y nifer o Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn golygu y gall y tîm gweinyddol gynnal a darparu lefel gyson o gefnogaeth ledled y wlad, ac osgoi dyblygu gwaith sydd yn digwydd dan y drefn gyfredol.

# Y cynigion

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cynnig nifer o opsiynau i uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol:

**Opsiwn 1**
Gwneud dim. Nid yw cadw'r sefyllfa bresennol yn opsiwn ymarferol oherwydd, yn dilyn y rhaglen cau llysoedd, ni fydd adeiladau llys o fewn rhai Ardaloedd Cyfiawnder Lleol. Gallai hyn arwain at ddiffyg hyblygrwydd i wrando ar y llwyth gwaith mewn modd amserol, a phryder na fyddai rhai ynadon yn gallu cynnal y cymwyseddau angenrheidiol.

**Opsiwn 2**
Uno'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol canlynol:-

- Conwy a Sir Ddinbych (Llandudno a Phrestatyn) i greu Ardal Cyfiawnder Lleol newydd o'r 1af Ebrill 2017 ymlaen. Byddai'r ardal newydd yn cael ei galw'n Ardal Cyfiawnder Lleol Canol Gogledd Cymru.

- Y Castellnewydd ac Ogwr a Chaerdydd a Bro Morgannwg (Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd) i greu Ardal Cyfiawnder Lleol newydd o'r 1af Ebrill 2017 ymlaen. Byddai'r ardal newydd yn cael ei galw'n Ardal Cyfiawnder Lleol Caerdydd.

- Gwynedd ac Ynys Môn i greu Ardal Cyfiawnder Lleol newydd o'r 1af Ebrill 2017 ymlaen. Byddai'r ardal newydd yn cael galw'n Ardal Cyfiawnder Lleol Gogledd Orllewin Cymru.

- Brycheiniog a Sir Faesyfed a Chymoedd Morgannwg, i greu Ardal Cyfiawnder Lleol newydd o'r 1af Ebrill 2017 ymlaen. Byddai'r ardal newydd yn cael ei galw'n Ardal Cyfiawnder Lleol Canolbarth Cymru.

Mae'r opsiwn hwn yn galluogi hyblygrwydd i weithredu o ganlyniad i'r rhaglen cau llysoedd, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau a gwneud y mwyaf o'r modd y rheolir rhestru a'r rota yn y llysoedd sy'n derbyn y gwaith. Gallai olygu gostyngiad yn yr amseroedd aros a chysondeb gwasanaeth, gyda dosbarthiad gwaith tecach rhwng yr ynadon, gan eu caniatáu i ddal gafael ar eu cymhwysedd o fewn mainc fwy. Efallai bydd y goblygiadau o ran teithio yn fwy i rai defnyddwyr ac ynadon ac felly byddai cynnydd mewn costau teithio.

**Opsiwn 3**
Uno'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol canlynol:-

- Conwy, Sir Ddinbych, Sir Drefaldwyn, Gwynedd, Gogledd Ddwyrain Cymru ac Ynys Môn i greu Ardal Cyfiawnder Lleol newydd o'r 1af Ebrill 2017 ymlaen, a fyddai'n cael ei galw'n Ardal Cyfiawnder Lleol Gogledd Cymru.

- Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Gorllewin Morgannwg, i greu Ardal Cyfiawnder Lleol newydd o'r 1af Ebrill 2017 ymlaen, a fyddai'n cael ei galw'n Ardal Cyfiawnder Lleol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

- Caerdydd a'r Fro; Y Cymoedd a Brycheiniog a Sir Faesyfed; a Gwent, i greu Ardal Cyfiawnder Lleol newydd o'r 1af Ebrill 2017 ymlaen, a fyddai'n cael ei galw'n Ardal Cyfiawnder Lleol De Ddwyrain Cymru.

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r llwybrau traddodi o'r llysoedd ynadon i'r Llys y Goron. Mae'r opsiwn hwn yn rhoi rhagor o hyblygrwydd ac yn gwneud defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau.

**Opsiwn 4**
Uno'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol canlynol:-

- Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Gogledd Ddwyrain Cymru ac Ynys Môn i greu Ardal Cyfiawnder Lleol newydd o'r 1af Ebrill 2017 ymlaen, a fyddai'n cael ei galw'n Ardal Cyfiawnder Lleol Gogledd Cymru.

- Sir Gaerfyrddin, Brycheiniog a Sir Faesyfed, Sir Drefaldwyn, Ceredigion, a Sir Benfro i greu Ardal Cyfiawnder Lleol newydd o'r 1af Ebrill 2017 ymlaen, a fyddai'n cael ei galw'n Ardal Cyfiawnder Lleol Dyfed Powys.

- Caerdydd a'r Fro; Y Cymoedd a'r Castellnewydd ac Ogwr a Gorllewin Morgannwg i greu Ardal Cyfiawnder Lleol newydd o'r 1af Ebrill 2017 ymlaen, a fyddai'n cael ei galw'n Ardal Cyfiawnder Lleol De Cymru.

Mae'r opsiwn hwn yn rhoi hyblygrwydd i weithredu system cyfiawnder yng Nghymru sydd yn dilyn ffiniau presennol yr heddlu. Hefyd, mae'n rhoi rhagor o hyblygrwydd o ran rhestru a rheoli'r rota, ac yn mynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n lleihau, osgoi dyblygu cyfarfodydd ac yn lleihau oedi rhwng gwrandawiadau.

**Opsiwn 5**
Lleihau'r nifer o Ardaloedd Cyfiawnder Lleol i ddau: un yn y Gogledd ac un yn De.

Byddai Gogledd Cymru'n cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir Drefaldwyn, Gwynedd, Gogledd Ddwyrain Cymru ac Ynys Môn.

Byddai De Cymru yn cynnwys Caerdydd a Bro Morgannwg, Cymoedd Morgannwg, Gwent, Castellnewydd ac Ogwr, Brycheiniog a Sir Faesyfed, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a Gorllewin Morgannwg.

Cynigir y dylid uno'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol i greu dwy Ardal Cyfiawnder Lleol newydd o'r 1af Ebrill 2017 ymlaen. Byddai'r ardaloedd newydd yn cael eu galw'n Ardal Cyfiawnder Lleol Gogledd Cymru, ac Ardal Cyfiawnder Lleol De Cymru.

Mae'r opsiwn hwn yn debyg iawn i'r strwythur presennol ar gyfer clercod ynadon. Hefyd, mae'n mynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n lleihau, osgoi dyblygu cyfarfodydd ac yn lleihau oedi rhwng gwrandawiadau.

**Opsiwn 6**
Cael un Ardal Cyfiawnder Lleol i Gymru. Mae'r opsiwn hwn yn amlwg yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i reoli llwyth gwaith ynadon gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Byddai'n dileu'r broblem o ddyblygu cyfarfodydd ar draws yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol ac yn mynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau yn y llwyth gwaith yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, cydnabyddir gyda meinciau mwy, efallai byddai Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yn cael anawsterau wrth ddarparu cefnogaeth fugeiliol a gweinyddiaeth gyffredinol.

Byddai angen pennu uwch arweinwyr mainc ynadon anffurfiol i bob adeilad llys, neu benodi Dirprwy Gadeirydd ychwanegol i'r Fainc i gynorthwyo Cadeirydd y Fainc i gyflawni eu cyfrifoldebau bugeiliol ac arweinyddol.

Byddai'r Ardal Cyfiawnder Lleol newydd yn weithredol o'r 1af Ebrill 2017 ymlaen, a byddai'n cael i alw'n Ardal Cyfiawnder Lleol Cymru.

**Opsiynau eraill:**

Gwahoddir ymgyngoreion i awgrymu unrhyw ddatrysiadau eraill, ynghyd â rhesymau i gefnogi.  Anfonir pob ymateb at Gadeiryddion y Grwpiau Busnes Barnwrol lleol; a bydd y Grwpiau Busnes Barnwrol yn ymateb cyn i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wneud cyflwyniad terfynol i'r gweinidogion.

## Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau a ganlyn:

**Cwestiwn 1: Pa opsiwn ydych chi'n ffafrio? Pa sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud ar y cynigion?**

**Cwestiwn 2: Yn ogystal â nodi'r opsiwn rydych chi'n ffafrio, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn nodi'r effeithiau cadarnhaol ar negyddol arnoch chi, eich mainc/tîm neu'r sefydliad ar gyfer pob un o'r opsiynau, os credwch na ganfasiwyd yn ddigonol ar unrhyw fater yn y ddogfen ymgynghori hon.**

**Cwestiwn 3: A fydd y cynigion i newid yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn cael effaith uniongyrchol arnoch chi? Os byddant, rhowch ragor o fanylion.**

**Cwestiwn 4: A ddylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ystyried unrhyw effeithiau penodol eraill y cynigion wrth ddod i benderfyniad? Rhowch fanylion.**

**Cwestiwn 5: Mae asesiad o'r effeithiau tebygol a'r dadansoddiad cefnogol i'w gweld yn yr Asesiad o Effaith sy'n dod gyda'r ymgynghoriad hwn. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dystiolaeth a ddefnyddiwyd neu'r casgliadau a wnaed? Darparwch unrhyw dystiolaeth ychwanegol y credwch a fyddai o gymorth.**

**Cwestiwn 6: Rhowch unrhyw sylwadau ychwanegol sydd gennych.**

**Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**

## Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl eich swydd** neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. fel aelod o'r cyhoedd, ayb) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn. | ☐<br>(ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, rhowch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 5 Awst 2016 i:

Ymgynghoriad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru
Uned Gefnogi Cymru
2il Lawr, Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro
Plas Fitzalan
Caerdydd
CF24 0RZ
**Ffôn:** 029 2046 7759

**E-bost:** HMCTSWalesConsultation@hmcts.gsi.gov.uk

Gellir gwneud cais i gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall drwy gysylltu â'r uned a nodir uchod.

### Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law a byddwn yn anfon copi at bob ymatebydd.

### Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

### Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am inni drin y wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod yna God Ymarferol statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â fo ac sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro inni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roesoch inni fel gwybodaeth gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwrthodiad awtomatig wedi ei gynhyrchu ar eich system TG, ar ei ben ei hun, yn ymrwymo'r Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, ac yn y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data'n cael ei ddatgelu i drydydd parti.

## Asesiad o Effaith

Gweler y ddogfen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb sydd ynghlwm, dyddiedig 18 Mai 2016.

## Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr

Cymdeithas Barnwyr Cymru

Barnwyr Llywyddol Cymru

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cymru

Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru

Gwasanaeth Carchardai EM, Cymru

CAFCASS Cymru

Cymdeithas y Gyfraith, Cymru

Cwnsler Cyffredinol Cymru

Arglwyddi Rhaglaw Cymru

Barnwyr Cyswllt yr Ynadon

Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cymru

Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cymru

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Arweinydd Cylchdaith Cymru a Chaer

Cymdeithas y Gyfraith Caerdydd a’r Cylch

Cymdeithas y Gyfraith Gogledd Cymru a Chaer

Cymdeithas y Gyfraith Gorllewin Cymru

Cymorth i Ddioddefwyr, Cymru

Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

ACAS Cymru

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant

Y Cyfarwyddwr, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Llywodraeth Cymru

Uned Fusnes ADSS Cymru

Sefydliad Cymru'r Gyfraith

Un Llais Cymru

Holl Aelodau Seneddol Cymru

Holl Aelodau Cynulliad Cymru

Prif Gwnstabliaid yng Nghymru

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Cymru

Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, Cymru

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan

Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon)

Cadeiryddion Meinciau Cymru

Cadeiryddion Paneli Teulu Cymru

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru

Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg

© Hawlfraint y Goron 2013
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill hefyd drwy ffonio 029 2046 7759 neu anfon e-bost i: HMCTSWalesConsultation@hmcts.gsi.gov.uk